**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

15 Tachwedd 2022

Annwyl John,

Rwy'n ddiolchgar i'ch Pwyllgor am y sylw a roddwyd gennych i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) a'r ffordd y gellir eu cefnogi i gyflawni eu huchelgeisiau. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod partneriaid mewn awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sefydlu'r cyfryngau newydd pwysig hyn ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.

Wrth gwrs, mae'n rhesymol disgwyl nifer bach o broblemau technegol, fel y daeth i'r amlwg wrth i CBCau gael eu rhoi ar waith. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU bellach wedi cadarnhau y bydd yn deddfu i gynnwys y pedwar CBC yn y cynllun ad-dalu TAW. Bydd CBCau yn gymwys i gael ad-daliad o'r TAW cymwys a ysgwyddir ganddynt o'r dyddiad y caiff Gorchymyn ei wneud. Mae'n bleser gennyf adrodd y bydd y newid hwn i reolau TAW yn dod i rym ar 10 Chwefror bellach, sef ychydig yn gynharach na'r disgwyl. Bydd hyn yn datrys y brif broblem weithredol i CBCau, ac yn rhoi cyfle iddynt gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn hyderus.

Rwy'n deall yn llwyr fod partneriaid yn rhwystredig oherwydd yr oedi wrth ddatrys rhai o'r problemau sy'n weddill, gan gynnwys rhoi i CBCau yr un hawliau ag a roddir i'w cynghorau cyfansoddol o ran treth gorfforaeth yn ogystal â sicrhau eu bod y gallu benthyg o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

Pan fydd materion yn codi o ganlyniad i ddeddfwriaeth y Senedd sy’n gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y DU sydd y tu hwnt i gymhwysedd y Senedd, gellir llunio Gorchymyn o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ‘Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol’, mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU.

Mae'n bleser gennyf allu cadarnhau bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn yn ffurfiol iddo gytuno i ddwyn Gorchymyn adran 150 ymlaen, gan hefyd ddarparu ar gyfer saith newid technegol sydd eu hangen er mwyn cefnogi CBCau.

Rwy'n ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol am nodi'n benodol yn ei ymateb pa mor bwysig yw cytuno ar y newidiadau sy'n ymwneud â CBCau cyn gynted â phosibl. Er bod rhaid i Weinidogion y DU gytuno i'r holl ddiwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth o hyd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach yn trafod y darpariaethau hyn â chydweithwyr yn Adrannau'r DU fel mater o bwys.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn anffodus, nid oes amserlen derfynol gennym bellach ar gyfer gwneud y newidiadau hyn, ond byddaf yn sicrhau bod y pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Wrth gwrs, rwy'n sylweddoli'r heriau y mae partneriaid yn eu hwynebu o ystyried y sefyllfa economaidd a chyllidol heriol, a'r goblygiadau yn sgil hyn ar gyfer rhoi CBCau ar waith. Mae'r gefnogaeth barhaus i CBCau, drwy'r cyfraniadau a wneir gan awdurdodau lleol cyfansoddol, yn un o'r ffactorau a ystyrir wrth benderfynu ar gwantwm cyffredinol y Grant Cynnal Refeniw wrth ystyried cyllidebau.

Fel y nodwyd gennyf yn flaenorol, rwy'n hyderus bod CBCau yn darparu ffordd gyson ac atebol o gefnogi cydweithredu rhanbarthol. Drwy hyn, bydd modd i bartneriaid gyflawni eu huchelgeisiau rhanbarthol, datblygu economïau rhanbarthol llwyddiannus ac annog twf lleol mewn modd cydweithredol a strategol. Yn amlwg mae hyn yn bwysicach nag erioed.

Mae'n braf gweld bod partneriaid, wrth roi tystiolaeth i'ch pwyllgor, yn gweld yn gyffredinol sut mae cysoni dulliau o ymdrin â datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio'r defnydd o dir yn y CBC yn rhoi cyfle i ystyried y ffordd y mae pob un ohonynt yn dibynnu ar ei gilydd, ac i fanteisio ar hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanbarthau i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau cynllunio mewn ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion rhanbarthol penodol. Bwriedir cynnal digwyddiad gyda'r CBCau yn y flwyddyn newydd i drafod y ddau ofyniad cynllunio, y capasiti a geir yn y rhanbarthau i'w datblygu, a'r gefnogaeth y gall fod angen ei rhoi i'w helpu.

Byddaf yn parhau i ymgysylltu'n agos â phob CBC i edrych ar y ffordd y gall Llywodraeth Cymru gefnogi eu huchelgeisiau a helpu i fynd i'r afael ag unrhyw heriau a wynebir ganddynt.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government